# SL(6)631 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Mae deddfwriaeth cymorth myfyrwyr a diogelu ffioedd sy'n bodoli ar hyn o bryd sy'n ymwneud â chategorïau penodol o fyfyrwyr cymwys, sef:

(i) gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir, a

(ii) personau y rhoddwyd caniatâd iddynt ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir a'u plant, ond yn ei gwneud yn ofynnol bod y caniatâd perthnasol wedi ei *roi* i berson ddod i mewn er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr a/neu fesurau diogelu ffioedd - nid oes gofyniad i'r person *gael* y caniatâd perthnasol ar y pryd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro'r gwall hanesyddol hwn drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd berthnasol. O ganlyniad i'r newidiadau, dim ond y rhai sy'n dod o fewn y cymhwystra perthnasol ac sydd â chaniatâd presennol i ddod i mewn neu aros yn y Deyrnas Unedig fydd yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr a/neu fesurau diogelu ffioedd (ar yr amod y bodlonir yr holl feini prawf perthnasol eraill).

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir yn yr offeryn mai "24 Mehefin *2024*" [*pwyslais wedi'i ychwanegu*] yw'r dyddiad y gosodwyd y Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru, y mae'n ymddangos ei fod yn wall. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw hyn yn wir.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Rydym yn cytuno mai gwall yw hyn, ac mae Cofrestrydd yr Offerynnau Statudol wedi cytuno i'w gywiro drwy slip cywiro, fel bod y dyddiad gosod yn cael ei nodi'n gywir fel "24 June 2025".

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 7 Gorffennaf 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.